# Manteision aelodaeth QAA



QAA yw corff ansawdd dibynadwy'r DU ar gyfer addysg uwch a thrydyddol, gan weithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol i gynnal safonau academaidd a gwella profiad dysgu myfyrwyr. **Gan fod eich sefydliad yn aelod o QAA, mae gan bob aelod o staff fynediad unigol at ganllawiau arbenigol, adnoddau, digwyddiadau a rhwydweithiau - gan eich helpu i roi ansawdd ar waith.**

## Llunio dyfodol addysg uwch ›

Dweud eich dweud mewn penderfyniadau allweddol a datblygu polisïau. Ymunwch ag ymgynghoriadau, gweithgorau, a grwpiau darllen ac ysgrifennu i lunio safonau'r sector. Helpwch i ddatblygu Datganiadau Meincnod Pwnc a chanllawiau eraill i'r sector, a chael mynediad unigryw i weithdai sy'n cefnogi gweithredu effeithiol a chymesur ar draws eich sefydliad.

## Cymunedau a digwyddiadau rhwydweithio ›

Cysylltwch â chymheiriaid sy'n wynebu'r un heriau trwy ein cymunedau rhwydweithio a grwpiau cymheiriaid newydd sy'n canolbwyntio ar bynciau. Mynychwch gynadleddau blaenllaw, sioeau teithiol rhithwir a sesiynau ymateb cyflym i rannu dulliau gweithredu a chydweithio ar faterion datblygol - fel y gallwch weithredu'n hyderus pan fydd y sector yn newid.

## Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ›

Meithrinwch eich sgiliau a'ch hyder gyda dros 25 awr o DPP dan arweiniad arbenigwyr sydd ar gael i bob aelod o staff. O weithdai ffocws y Labordy Ansawdd i raglenni dysgu dwys yr Academi Ansawdd, mae ein llwybr datblygu strwythuredig yn rhoi arweiniad ymarferol i chi y gallwch ei gymhwyso ar unwaith - beth bynnag fo'ch rôl neu gam gyrfa.

## Llyfrgell adnoddau ›

Cyrchwch ein hardal aelodaeth adnoddau ar-lein, sy'n cynnwys eglurwyr polisi, mewnwelediadau data, canllawiau ymarferol a newyddion sector. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer yr holl staff - gan eich helpu i gyflwyno addysgu o ansawdd uchel, amddiffyn uniondeb academaidd, ac ymateb i flaenoriaethau heb ailddyfeisio atebion.

## Cylchlythyr Diweddariad Aelodau ›

Peidiwch â cholli'r adnoddau, cyfleoedd a digwyddiadau diweddaraf. Cofrestrwch ar gyfer Diweddariad Aelodau i dderbyn newyddion yn syth i'ch mewnflwch, gan gynnwys briffiau sganio'r gorwel a gweld yn gynnar yr hyn sy'n newid ar draws y sector.

## Bathodyn aelodaeth QAA ›

Arddangoswch eich ymrwymiad i ansawdd a gwelliant parhaus. Mae bathodyn aelodaeth QAA yn dangos bod eich sefydliad yn diogelu safonau academaidd ac yn cyd-fynd â disgwyliadau sy'n cael eu parchu'n rhyngwladol - gan atgyfnerthu hygrededd gyda myfyrwyr, partneriaid, rheoleiddwyr a chyflogwyr.

## Prosiectau Gwella Cydweithredol ›

**Gwnewch gais am fynediad i aelodau yn unig** at gyllid ar gyfer prosiectau cydweithredol sy'n gwella profiad myfyrwyr ac yn hyrwyddo arfer effeithiol.

Ers 2021, mae'r rhaglen wedi buddsoddi dros **£827,000 mewn 91 o brosiectau ar draws 147 o sefydliadau** – gan gynhyrchu adnoddau parod i'w defnyddio ar Ddeallusrwydd Artiffisial (AI), llais myfyrwyr, cyflogadwyedd a mwy.

**www.qaa.ac.uk**